

Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi

22 Mawrth 2019, Meet Space, Caerdydd
Cofnodion

Yn bresennol: David Notley (DN) (cyd-gadeirydd)
Kellie Beirne (KB) (cyd-gadeirydd)
Andy Middleton (AM)
Steve Smith (SS)
Claire Durkin (CD)
Ian Brotherston (IB)

Ymddiheuriadau: Sue Bale (SB)
Rhys Thomas (RT)
Helen Swygart (HS)
Kirsten Bound (KB)
Kevin Morgan (KM)

Yr Ysgrifenyddiaeth: Alastair Davies (AD)
Philippa Costello (PC)

Siaradwyr Gwadd: Yr Athro Phil Brown (PB) (CU)
Matt Hicks (MH) (LIC)

Eitem ar yr Agenda		Cam Gweithredu
1	<p>Croeso</p> <p>Croesawodd DN aelodau'r cyngor i ddeunawfed cyfarfod Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi.</p> <p>Croesawodd y Cyngor CD i'w cyfarfod cyntaf. Mae CD ar hyn o bryd yn Gyfarwyddwr Arloesi Ynni yn BEIS.</p> <p>Cytunwyd a chymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.</p> <p>Gofynnwyd i'r aelodau oedd yn bresennol nodi unrhyw achos uniongyrchol neu anuniongyrchol o wrthdaro buddiannau o ran yr eitemau ar yr agenda. Ni chofnodwyd unrhyw fuddiannau newydd.</p>	
2	<p>Y Diweddraf am IACW</p> <p>Rhoddodd DN ddiweddariad ar gyfarfod diweddraf a gafodd gyda RT a'r Gweinidog Addysg a Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i roi'r newyddion diweddraf iddynt ar waith a dyfodol IACW. Eglurodd DN ei fod ef a KB i gyfarfod gyda Ken Skates, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, ddechrau mis Ionawr, ond oherwydd y newid ym mhortffolios y Gweinidogion, cafodd y cyfarfod ei ail-drefnu. Tynnodd DN sylw y Gweinidogion at swyddogaeth y Cyngor ac ystyr a gwerth arloesi, sydd yn fwy nag ymchwil, gwyddoniaeth a thechnoleg. Eglurodd bod gan arloesi effaith ehangach ar gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd. Dywedodd DN bod hyn yn adeiladol, a chododd y</p>	

	<p>Gweinidog dros yr Amgylchedd y cwestiwn ynghylch sut y caiff arloesi effaith ar fywydau pobl bob dydd, a'r angen i allu dangos gwerth arloesi.</p> <p>Cytunwyd bod gan IACW swyddogaeth o ran helpu i gyflawni ymrwymadau y maniffesto a chawsant eu gwahodd i roi adborth i'r Gweinidogion ar sut y gall gyfrannu at gyflawni addewidion penodol o fewn y maniffesto.</p> <p>Roedd y trafodaethau gyda Dirprwy Weinidog yr Amgylchedd a Thechnoleg yn tynnu sylw at ei ddiddordeb mewn amaethyddiaeth fanwl, gan holi sut y gallwn ni yng Nghymru wella yr atebion y gellir eu marchnata y tu allan i Gymru. Beth sy'n berthnasol i economi Cymru a beth ellir ei ddenu i mewn?</p> <p>Mae'r cyngor yn cytuno bod angen iddo ganolbwyntio ar bethau ymarferol fydd yn arwain at weithredu yn y tymor byr fydd yn creu effaith mwy hirdymor. Mae angen i IACW greu yr amodau a'r ysgogiadau.</p>	<p>DN a KB</p>
<p>3</p>	<p>Adolygiad o Arloesi Digidol</p> <p>Cafodd yr Adolygiad o Arloesi Digidol ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2018, gyda'r adroddiad terfynol i'w gyhoeddi yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 17 Mehefin 2019.</p> <p>Cafodd panel o arbenigwyr yn cynnwys cwmnïau ac un neu ddau o academyddion ei sefydlu a lanswyd galwad am dystiolaeth ym mis Medi 2018. Derbyniwyd ymatebion gan brifysgolion, gwasanaethau cyhoeddus, byrddau iechyd, awdurdodau lleol ac asiantaethau arloesi.</p> <p>Mae adroddiad interim a fideo 3 munud i'w cyhoeddi ddiwedd Mawrth 2019.</p> <p>Holodd PB ym mha feysydd y gall Gymru wneud gwahaniaeth o gymharu â'r hyn sy'n digwydd mewn lleoedd eraill? Mae ystadegau yn dangos bod BBaChau yng Nghymru yn araf yn addasu ac nid yw nifer ohonynt yn barod am Ddiwydiant 4.0 - mae Cymru yn debyg i'r DU o ran hynny. Dywedodd bod dystiolaeth bod defnydd digidol yn cynyddu yng Nghymru.</p> <p>Gofynnodd PB beth oedd yr ysgogwyr trawsbynciol gwaelodol yng Nghymru? O drafodaethau amrywiol, mae PB yn credu bod rhain yn feysydd ble y mae gan Gymru fantais gystadleuol, a'r pethau y mae Cymru yn rhagori ynddynt, ble y gall adeiladu clystyrau newydd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Ynni glân a'r economi gylchol 2. Y diwydiannau proffesiynol a chreadigol 3. Llywodraeth ddigidol a thrawsnewid y sector cyhoeddus 4. Technoleg feddygol a biotechnoleg 5. Gweithgynhyrchu uwch/smart 6. Deallusrwydd artiffisial/dadansoddi data/diogelwch seibr 	

	<p>Nid oes gan Gymru fantais gystadleuol ar hyn o bryd ym mhob un o'r clystyrau hyn, ond os nad yw'n gweithredu nawr, bydd o dan anfantais gystadleuol.</p> <p>Anfonwch unrhyw adborth yn ôl at PB.</p> <p>PC i ddsbarthu'r sleidiau.</p>	<p>IACW</p> <p>PC</p>
<p>4</p>	<p>IACW</p> <p>Dechreuodd KB y drafodaeth ar bwrpas, amcanion a'r ffordd ymlaen ar gyfer IACW dros y flwyddyn nesaf. Pa feysydd ac ysgogiadau posibl all IACW ganolbwyntio arnynt? Awgrymodd DN ddatblygu cynllun un tudalen cyn cyfarfod nesaf y Cyngor yn nodi'r meysydd i ganolbwyntio arnynt, ar y cychwyn am y 12 mis nesaf, ond hefyd weledigaeth hirdymor.</p> <p>Mae'r trafodaethau yn canolbwyntio ar yr economi Sylfaen a'r ymrwymiad i'r 4 elfen sydd wedi'u blaenoriaethu gan LIC - gofal, manwerthu, twristiaeth a bwyd. Beth yw'r cyfleoedd yn y meysydd hynny ar gyfer y meysydd digidol, technoleg ac arloesi allai sbarduno cynhyrchiant?</p> <p>Mae'r meysydd posibl a drafodwyd hefyd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Data - Cytunwyd y dylid diweddarau'r Arloesiadur sydd ar hyn o bryd yn cael ei ystyried gan Kevin Morgan a Rick Delbridge o Brifysgol Caerdydd i barhau i roi darlun inni o weithgarwch arloesi yng Nghymru. Cafodd astudiaethau mapio eu trafod hefyd mewn meysydd fel seibr, amddiffyn, iechyd i nodi cryfderau Cymru a ble y mae ganddi fantais gystadleuol; • Amaethyddiaeth fanwl - dywedodd AD bod ganddo enghreifftiau o gyfleoedd a phrosiectau prifysgol yn cynnwys amaethyddiaeth fanwl y gellid ei fwydo yn ôl i'r Gweinidog. Mae angen gwneud rhagor o waith i nodi rhagor o brosiectau gyda'r gymuned ffermio a'r byd academaidd. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r posibilrwydd o gynnal digwyddiad/cyfarfod ar draws y sector i hyrwyddo Amaethyddiaeth Fanwl i helpu i nodi cyfleoedd a thrafod prosiectau posibl a heriau sy'n cynnwys defnyddio tir; offer; y gymuned ffermio; defnyddio bwyd a phrosesu; ffermydd smart; a chyflenwyr ffermydd; • Profi gwasanaethau cyhoeddus - e.e. profi i hwyluso arloesi digidol o fewn gwasanaethau cyhoeddus; gwneud defnydd mwy effeithiol o gaffael cyhoeddus. <p>Cysylltu gyda WSIAC gan bod posibilrwydd o groesi drosodd i feysydd eraill tebyg.</p> <p>Mae AD yn bwriadu bod yn bresennol mewn cyfarfod dilynol gyda Gweinidogion ddiwedd Mawrth. AD i roi adborth i'r Cyngor o syniadau'r Gweinidogion yn dilyn y cyfarfod.</p> <p>KB a DN i baratoi ymateb i'r Gweinidog.</p> <p>PC i anfon gwybodaeth ar yr Arloesiadur, NIB, ToR at CD.</p>	<p>IACW</p> <p>AD</p> <p>DN a KB</p> <p>PC</p>

	<p>Cytunwyd y byddai'r Is-grwpiau yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf. Awgrymiadau eraill yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tystiolaeth a chasglu data; • Gwasanaethau Cyhoeddus; • Cydweithredu Rhyngwladol. 	
5	<p>UNRHYW FATER ARALL</p> <p>Cyhoeddodd SS ei fod yn ymddeol o'r Banc Datblygu ddiwedd Ebrill 2019. Cytunwyd y byddai SS yn parhau yn aelod o IACW ond y byddai'n syniad da i ddod o hyd i aelod newydd o Fanc Datblygu Cymru i ymuno â'r Cyngor.</p> <p>DN i holi Carol Bell i fod yn aelod newydd posibl o IACW.</p> <p>Bwriedir cynnal cyfarfod nesaf IACW ar 14 Mehefin 2019 - lleoliad i'w gadarnhau.</p>	DN